Ysgol Pontrobert
Pontrobert,
Meifod,
Powys
SY22 6JN

Rhif Ffôn/Ffacs 01938 500394
office@pontrobert.powys.sch.uk
www.pontrobert.org

YSGOL
PONTROBERT

Cylchlythyr Ysgol Pontrobert
Chwefror 2015

Croesawyd Ffion i'r ysgol ym mis Ionawr, ac mae wedi setlo i mewn yn dda iawn.
Llongyfarchiadau mawr i Mrs. Mari Vaughan a'i gŵr, Ed, ar enedigaeth eu merch , Betsan Erfyl, yn ôl ym mis Rhagfyr.
Fel arfer, mae hi wedi bod yn hanner tymor prysur iawn ac rydym wedi llwyddo i gynnal llawer o weithgareddau amrywiol i gyfoethogi addysg y plant, fel y nodwyd yn Adroddiad Arolygiad Estyn .

Arolwg Estyn ac Ysgol Werdd
Cafwyd hanner tymor hynod o lwyddiannus gyda'r Adroddiad Estyn yn hynod o gadarnhaol a chawsom ein categoreiddio yn ysgol werdd gan Llywodraeth Cymru sef y lefel uchaf yng nghategoriau ysgolion Cymru.

Ymwelwyr i'r Ysgol
Mae'r plant wedi bod yn lwcus iawn i gael nifer fawr o ymwelwyr i'r ysgol.
Daeth Mrs. Val Talbot o Lansilin i dderbyn siec o £300 gan y disgyblion ar ran Dolen Ffermio a chafodd y disgyblion brynhawn hynod o werthfawr yn dysgu am Uganda a'r bobl ifanc yr ydym yn eu helpu yno.
Derbyniodd y disgyblion lythyr gan ein Aelod Seneddol, Glyn Davies, oedd yn llongyfarch ein disgyblion ar eu gwaith elusennol.
Daeth yr elusen "Childline" i wneud gweithdy cynhwysfawr iawn gyda disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ac roedd ymateb y plant yn wych.
Daeth Powysland fel arfer i wneud gweithgareddau hanesyddol gyda'r ddau ddosbarth.

Ymweliadau Addysgol
Bu dosbarth Mrs. Edwards yn Ysgol Dyffryn Banw yn gweld y sioe "Yr Hwyaden Fach Hyll".
Bu Ifan a Gareth yn Ysgol Caereinion am y diwrnod yn cymryd rhan mewn diwrnod o weithgareddau o hybu defnydd o'r iaith Gymraeg.
Bu dosbarth Mrs. Parry yn Theatr Hafren yn cymryd rhan yn Jambori'r Urdd.

Chwaraeon
Bu'r tîm pêl-droed yn cynrychioli'r ysgol yn nhwrnament yr Urdd yn Llanfair. Roedd eu chwarae o safon uchel gan ennill dwy gêm, colli un a chael un gêm gyfartal.
Bu dosbarth Mrs. Parry yn cymryd rhan yn yr Athletau dan do gydag ysgolion yr ardal a chawsant fore yn llawn o sgiliau corfforol.
Mae dosbarth Mrs. Parry wedi bod yn ymarfer eu sgiliau traws gwlad ar gyfer y cystadleuthau ar ôl yr hanner tymor.

Dawnsio'r Urdd
Llongyfarchiadau i'r grŵp dawnsio ddaeth yn ail yn eu cystadlaeuaeth yn Llanfair nos Fercher. Byddant yn awr yn cystadlu yn Theatr Hafren ar **Fawrth 11eg.**

Clwb yr Urdd
Mae llawer o'r plant wedi bod yn aros i Glwb yr Urdd bob nos Fercher ble maent wedi bod yn brysur yn ymarfer ar gyfer pob math o gystadleuthau Eisteddfod yr Urdd. Bydd yr Eisteddfod Gylch yn Llanfair ar Fawrth yr 7fed. Bydd manylion i ddilyn ar ôl yr hanner tymor.